www.furthermaths.org.uk/wales		
Astudiaeth Achos	Mike Jarrett	
Cyfeiriad:	Ysgol Syr Thomas Jones Pentrefelin Amlwch Ynys Môn LL68 9TH Ffon: **01407 830287**	

Astudiaeth Achos:

Myfyriwr – Mike Jarrett

Darpariaeth Mathemateg Bellach:

Rwy'n hoffi Mathemateg oherwydd y teimlad o foddhad a gaf wrth weithio am amser hir ar broblem a rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol tan bod un yn gweithio yn y diwedd ac yn dod â phopeth at ei gilydd, canslo allan a gadael un ateb hardd syml ar ol. Rwyf hefyd yn hoffi mai dim ond un ateb pendant sydd i bob problem. Mae gallu defnyddio fy ngwybodaeth Mathemateg ar gyfer problemau byd go iawn, megis dod o hyd i'r tebygolrwydd o ganlyniadau penodol gan ddefnyddio ystadegaeth, neu ddod o hyd i werth mwyaf posibl rhywbeth gan ddefnyddio differu, yn rheswm arall pam rwy'n mwynhau Mathemateg cymaint.

Pan oeddwn yn astudio Mathemateg Bellach yn Ysgol Syr Thomas Jones, roeddwn yn cael un sesiwn dwy awr yr wythnos gyda'n athro Colin Fleming, a ddeuai o Lanelwy i ddysgu ni. Dim ond tri ohonom oedd yn y dosbarth, oedd yn dda gan ei fod yn caniatáu i ni i ofyn cwestiynau yn hawdd os oedd unrhyw un ohonom yn cael trafferth yn ystod y gwersi. Fodd bynnag, y tu allan i'r gwersi, nid oedd gennym lawer o bobl i drafod gyda pe baem wedi cael unrhyw drafferthion.

Mae'r ffaith fy mod wedi cael amser cyfyngedig iawn gyda fy athro yn golygu fy mod yn y pen draw wedi gorfod gwneud llawer o waith yn annibynnol, fel mynd dros nodiadau a gwylio fideos ar bynciau roeddwn yn teimlo fy mod angen gwell dealltwriaeth ohonynt. Bum hefyd yn mynychu cymaint o sesiynau adolygu FMSP ag y gallwn. Roedd hyn yn caniatáu i mi i gael fy haddysgu gan ystod o wahanol o athrawon a fyddai'n aml yn egluro pynciau mewn ffyrdd gwahanol i fy athro, a oedd yn helpu llawer wrth ddod i ddeall y pwnc. Roedd y sesiynau adolygiadau hefyd yn helpu drwy adael i ni gwrdd â myfyrwyr eraill oedd hefyd yn astudio Mathemateg Bellach. Gallem drafod y cwestiynau roeddem yn gweithio arnynt gyda eraill a thrafod dulliau gwahanol o ddatrys yr oeddent hwy wedi ei dysgu. Ar y cyfan, credaf bod FMSP wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth astudio Mathemateg Bellach, a byddem yn bendant yn eu hargymell i unrhyw un arall sy'n astudio

Mathemateg Bellach.

Manteision Astudio Mathemateg Bellach?

Roeddwn i'n gwybod fy mod am astudio Mathemateg Bellach cyn gynted ag y cefais wybod ei fod yn bodoli pan ddewisodd fy mrawd, sy'n ddwy flynedd yn hŷn na fi, i'w astudio ar gyfer ei Safon Uwch. Rwyf bob amser wedi mwynhau astudio Mathemateg, ac yn manteisio ar unrhyw gyfle i ddarganfod mwy am y peth ac i'w astudio ymhellach. Roeddwn hefyd yn gwybod fy mod eisiau gwneud Mathemateg yn y brifysgol, ac y byddai cymryd Mathemateg Bellach yn fantais i mi wrth wneud hynny.

Fe wnes wirioneddol fwynhau astudio Mathemateg Bellach, a byddwn yn bendant yn ei argymell i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymchwilio i fathemateg yn fwy manwl, gan iddo fy ngalluogi i ddarganfod llawer o wahanol ochrau o Fathemateg na fyddwn wedi ei weld yn y cwrs Mathemateg Safon Uwch, un o fy ffefrynnau ywn prawf drwy anwythiad. Rwy'n teimlo bod y cwrs Safon Uwch Mathemateg yn dysgu technegau newydd o fewn Mathemateg i chi ac yn dangos sut i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd symlach. Fodd bynnag, mae'r cwrs Mathemateg Bellach yn caniatáu i chi ddefnyddio'r technegau o'r cwrs Mathemateg Safon Uwch mewn sefyllfaoedd llawer mwy datblygedig a manwl, sy'n rhoi gwell dealltwriaeth o sut y gellir eu defnyddio i chi. Yn aml gallwch ddefnyddio dau neu dri techneg Mathemateg Safon Uwch mewn un cwestiwn Mathemateg Bellach, oedd yn dod a boddhad mawr, gan ei fod yn dangos pa mor ddefnyddiol ydynt

Doeddwn i heb ddweud wrth y prifysgolion fy mod yn astudio Mathemateg Bellach drwy FMSP Cymru, ond gostyngodd Prifysgol Bryste eu gofynion mynediad ar gyfer eu cwrs Mathemateg o A* A* A i A* AA dim ond oherwydd fy mod yn astudio Mathemateg Bellach.

Cefais 3 A* mewn Mathemateg, Mathemateg Bellach, a Chemeg, ac A mewn Ffiseg. Ym mis Hydref byddaf yn mynd i astudio Mathemateg ym Mhrifysgol Warwick.